

## Facebook

Ers rhai wythnosau hefyd mae gennym dudalennau *Facebook* ar gyfer eglwysi'r Ofalaeth.

Bwriedr eu defnyddio i dynnu sylw at waith yr eglwysi.

Dyma fanylion y tudalennau a grewyd hyd yma.

Capel Coch: 'Capel Coch Llanberis'

Carmel: 'Capel Carmel, Llanllechid'

Bethlehem: 'Capel Bethlehem, Talybont'

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Medi 11:** Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Medi 11:** Gwasanaethir am 10.00 gan y Gweinidog, a bydd Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Medi 11:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Medi 11:** Gwasanaethir yn

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Medi 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

### Medi 11

5.00 p.m. - Y Parchg Idris Thomas

### Medi 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

yr oedfa Gymundeb am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CARMEL

**Dydd Sul, Medi 11:** Gwasanaethir yn yr oedfa am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Sion Aled Owen.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Medi 9:** Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn Cartref, Caethro am 10.30 o'r gloch.



Cyfarfod Blynyddol  
yng Nghapel y Rhos, Llanrug  
Nos Lun, Medi 26  
7.00 o'r gloch

## Y mis nesaf - Llanberis

### Medi 4

10.00 a.m. a 5.00 p.m.  
- Y Parchg Eifion Williams

### Medi 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Medi 18

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts  
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau  
Parti Bytholwyrdd



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 695: Dydd Sul, 04 Medi, 2016

## Llwybr newydd

Tymor Newydd. Dechrau newydd. Plant bach yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf; plant mawr yn newid ysgol; athrawon yn croesawu to arall o blant; pobl ifanc yn mynd i'w swyddi cyntaf; myfyrwyr yn paratoi at fynd i'r coleg; ambell un yn cychwyn swydd newydd. Eraill newydd ymddeol, ac am y tro cyntaf erioed heb ddechrau i'w gwaith wedi gwyliau'r haf. Croeso, fis Medi.

I bawb sy'n wynebu amgylchiadau a her newydd o unrhyw fath, dymunwn bob llwyddiant. Gall sefyllfaoedd dieithr beri pryder ac ansicrwydd, ond gallan nhw hefyd ddod â'u cyffro a'u disgwyliadau. Os ydych yn cychwyn ar lwybr newydd y mis hwn, gobeithio y gwnewch chi fwynhau ei gerdded. O bosib y bydd yn chwith heb rai pethau cyfarwydd a adawyd ar yr hen lwybr, ond gall pob her newydd ddod â'i hwyl a'i foddhad ei hun.

Ond pa newid bynnag a ddaw, a pha wahaniaeth bynnag fydd rhwng yr hen a'r newydd dros y misoedd nesaf, go brin y gellir eu cymharu â'r newid y mae'r Efengyl yn ei ddwyn. Oherwydd rhoi bywyd newydd a wna honno. Nid dod ag ambell beth newydd i'n bywydau, ond gwneud ein bywydau'n gwbl newydd. Rhyfeddod yr Efengyl yw ei bod yn rhoi bywyd yn lle marwolaeth, goleuni yn lle tywyllwch, gobaith yn lle anobaith. Daw'r cyfan i ni trwy yr Arglwydd Iesu Grist. Trwy ffydd yn Iesu ceir bywyd newydd a gwell, nes bod yr hen fywyd – nad oedd ynddo'r

lle pwysicaf i Dduw – yn colli ei werth a'i flas. Y mae i'r bywyd newydd ei gyffro, wrth i'r Cristion ddechrau byw i wasanaethu'r Gwaredwr am iddo ddod i weld fod hwnnw wedi ei garu ddigon nes iddo roi ei fywyd drosto. Y sylweddoliad hwn fod Iesu wedi bod yn fodlon dioddef a marw dros ei bobl yw'r peth mwyaf cyffrous a brofodd y Cristion erioed. Os na fu i'r neges hon am farwolaeth Crist erioed ddod â rhyw gynhesrwydd i'n calon, mae lle cryf i amau a ydym wedi dechrau dilyn Iesu o gwbl. Mae'n debyg fod i bob perthynas ac antur newydd eu cyffro eu hunain, ac y mae hynny'n sicr yn wir am ein perthynas â'r Arglwydd Iesu Grist.

Ond gyda threigl amser fe all y cyffro bylu wrth i'r pethau a fu unwaith yn newydd fynd yn fwy cyfarwydd. Pan ddigwydd hynny, gall pob mwynhad gael ei gollu. Ac os digwydd hynny gyda'r Efengyl, buan iawn y gall y Cristion gollu'r blas a'r fendith a fu'n rhan o'r bywyd Cristnogol. Mor drist bob amser yw gweld hynny.

Ac eto mae gobaith, am fod Duw o hyd yn galw arnom i adnewyddu ein perthynas ag Ef. Os pylodd ein golwg ar Iesu, ac os oerodd ein cariad ato, mae Duw yn ein gwahodd i gydnabod hynny ac i brofi o'r newydd ei fod yn maddau pob bai. Y rhyfeddod mwyaf yw ein bod yn cael gwneud hynny bob dydd, er mwyn gweld newydd-deb parhaus gras, cariad a maddeuant Duw i ni yn ei Fab Iesu.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

'Bendigedig fyddo'r  
ARGLWYDD am iddo  
wrando ar lef fy ngweddi.

Yr ARGLWYDD yw fy nerth a'm tarian;  
ynddo yr ymddiried fy nghalon; yn sicr  
caf gymorth, a llawenycha fy nghalon, a  
rhof foliant iddo ar gân.

Y mae'r ARGLWYDD yn nerth i'w bobl  
ac yn gaer gwaredigaeth i'w eneiog.  
Gwareda dy bobl, a bendithia dy etifedd-  
iaeth; bugeilia hwy a'u cario am  
byth' (Salm 28:6-9).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a  
5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn  
Williams, Llanfairfechan.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r  
gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn yr oedfa Gymundeb yn  
Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y  
Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r

gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caethro.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r  
gloch gan y Gweinidog..

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod  
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.



BEIBL BYW

## Ebeneser Cyfarfod eglwys

Cynhelir Cyfarfod Eglwys i holl aelodau  
Ebeneser Deiniolen yn y festri am 7.00  
o'r gloch nos Lun, Medi 19.

Gobeithio'n fawr y bydd modd i gymaint  
â phosibl o'r aelodau fod yno.

Mae angen ethol Ysgrifennydd a rhoi  
trefn ar rai pethau ymarferol.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at yr holl  
aelodau yn ystod yr wythnos i'w  
gwahodd i'r cyfarfod.

## Cyfarfod Ordeinio

Brynhawn Sadwrn, Medi 17, bydd  
Gweinidog newydd yn cael ei ordeinio  
a'i sefydlu yng Ngofalaeth Fro Aled.  
Cynhelir yr oedfa am 2.00 o'r gloch yng  
Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan.

Pam sôn am y cyfarfod hwn yn *Gronyn*?  
Am fod gan yr un a ordeinir gysylltiad  
agos â'r eglwys yn Neiniolen.

Mae dros ugain mlynedd ers i deulu Afon  
Goch, Ifor Glyn a Nest Efans, a'u dau fab  
Rhodri a Robin, adael Deiniolen, ond o  
gofio mor ffyddlon fuont yng ngwaith yr  
Efengyl yn ein plith, mae'n naturiol ein  
bod yn llawen o ddeall y bydd Rhodri yn  
cael ei ordeinio yn Weinidog i Iesu Grist  
yn yr oedfa hon yn Llansannan.

Dymunwn yn dda iawn iddo a gweddiwn  
y bydd Duw yn bendithio'r oedfa ac yn  
rhoi i Rhodri bob nerth a gras ar gyfer y  
gwaith sydd o'i flaen. Mae'n gyfarwydd  
ag eglwys ei Ofalaeth newydd a'r ardal  
gan iddo fod yno'n cydweithio â'r Parchg  
Aneurin Owen, sydd newydd ymddeol  
o'i waith. Treuliodd Rhodri'r flwyddyn  
ddiwethaf yn gwneud ymchwil mewn  
coleg diwinyddol yn Llundain.

## Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun  
Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am  
7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 26.

Yn ystod y cyfarfod cawn glywed am  
waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf, a  
bydd cyfle i drafod unrhyw syniadau ar  
gyfer y gwaith i'r flwyddyn nesaf.

Eleni eto, y gobaith yw y bydd modd i  
bob eglwys o fewn dalgylch Efe anfon o  
leiaf un cynrychiolydd i'r cyfarfod hwn.

## Gwefan

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n  
cynnwys gwybodaeth am yr eglwys a'u  
gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei  
osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os  
na chwsoch gopi yn y capel am unrhyw  
reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan.

## Y Ffordd

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg  
wedi cyhoeddi cynllun newydd y gall yr  
eglwys ei ddefnyddio er mwyn ceisio  
meithrin ffydd a hyder at y blynyddoedd  
nesaf. Bydd cynllun 'Y Ffordd' yn cael  
ei gyflwyno i'r eglwys ledled Cymru  
mewn dau gyfarfod sydd i'w cynnal y  
mis nesaf. Bydd cyfle i bobl y Gogledd  
glywed am y cynllun mewn cyfarfod a  
gynhelir yng Nghapel Coffa, Cyffordd  
Llandudno am 7.00 o'r gloch, nos Iau,  
Medi 15.

Bydd y cynllun yn trafod y canlynol:

1. Ffyrdd trwy'r Beibl
2. Y Ffordd y daethom
3. Tystiolaeth Pobl y Ffordd
4. Gofal Pobl y Ffordd

Yn ystod y flwyddyn gyntaf bydd y  
pwyslais ar Y Beibl a Sefeni'r Ffydd.

Hyd yma, nid ydym wedi gweld dim o'r  
deunyddiau a baratowyd ar gyfer y cwrs  
neu'r cynllun hwn. Yn amlwg, fe geir  
rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod yng  
Nghapel Coffa, ac edrychwn ymlaen at  
gael gweld wedyn pa ddefnydd y gallwn  
ei wneud o'r cyfan o fewn yr Ofalaeth.  
Bydd croeso i bawb i'r cyfarfod hwnnw  
ar Fedi 15.

## Bocs bwyd

Rydym yn dal i dderbyn bwydydd yn  
Capel Coch at Fanc Bwyd Caernarfon.

Clywsom lawer dros y misoedd diwethaf  
am y defnydd cynyddol a wneir o'r Banc  
Bwyd ar draws y wlad. Mae hwn wedi  
datblygu yn wasanaeth gwerthfawr ac yn  
gymorth mawr i deuluoedd ac unigolion  
sy'n cael trafferth o bryd i'w gilydd i  
brynu bwyd.

Gallwch roi'r bwydydd yn y bocs casglu  
sydd yng nghyntedd Capel Coch.